# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 11EG GORFFENNAF 2018 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghŷd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), R. Roberts (Rheolwr Perfformiad) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor),

### 1. CROESO

Croesawyd Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol newydd i'w gyfarfod cyntaf o'r Cabinet gan y Cadeirydd.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P.Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad) a L.Phipps (Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd D. V. Poole (Arweinydd) ddiddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem agenda 4 – Ffedereiddio Ysgolion. Mae’r manylion wedi eu cofnodi gyda’r eitem briodol.

### 4. COFNODION CABINET - 27AIN MEHEFIN 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27ain Mehefin 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. FFEDEREIDDIO YSGOLION

Datganodd y Cynghorydd D. V. Poole (Arweinydd) ddiddordeb personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem hon. Mae'n Lywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Trelyn ac Ysgol Gynradd Pengam ac adawodd yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni chymerodd ran yn y ddadl.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud i ymgynghoriad ffurfiol, mewn partneriaeth â phob un Corff Llywodraethu, er mwyn ffedereiddio'r ysgolion canlynol:

Ysgol Gynradd y Parc ac Ysgol Gynradd Gilfach Fargod
Ysgol Gynradd Trelyn ac Ysgol Gynradd Pengam
Ysgol Iau Bedwas ac Ysgol Gynradd Rhydri
Ysgol Gynradd Ynys-ddu ac Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am gefndir Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn 2014 sy'n amlinellu'r prosesau a'r agweddau ymarferol ar sefydlu corff llywodraethu ysgol ffederal. Mae'r adroddiad yn nodi'r Ysgolion a'r Cyrff Llywodraethol sy'n dymuno mynd ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. Mae'r adroddiad yn cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod ac yn benodol Amcan Llesiant 2018 - 2023, Gwella Cyfleoedd Addysg i Bawb.

Eglurwyd bod y term 'Ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol ble mae nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau Llywodraethu. Amcan polisi Ffederasiwn Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg i wella canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o ymestyn cydweithredu a hyrwyddo perthnasau gweithio agosach, a dyma'r brif fenter i gyflawni gwaith partneriaeth ffurfiol ymhlith ysgolion i wella perfformiad a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion difreintiedig.

Cyfeiriwyd at baragraff 4.3. yn yr adroddiad sy'n crynhoi'r Rheoliadau Ffedereiddio. Rhoddwyd pwyslais ar ddau bwynt allweddol sef, un corff llywodraethu sy'n rhannu trefniadau llywodraethu ac, i'r ffederasiwn fod yn llwyddiannus, ymrwymiad i weithio fel grŵp o ysgolion a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol pob disgybl, eu lles a'u cyflawniadau. Eglurwyd hefyd y bydd ysgolion yn cadw eu cyllidebau eu hunain, bydd arolygiadau Estyn ysgolion unigol yn cael eu cynnal a bydd llwybrau archwilio ar wahân ar gyfer cyfrifon ysgol yn parhau. Mae ceisio barn rhanddeiliaid yn ofyniad statudol.

Nododd y Cabinet fuddion a heriau ffedereiddio. Mae'r manteision yn cynnwys ysgolion sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon ac yn gynaliadwy i godi safonau, gwella gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion a staff, gan rannu adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau. Mae un Corff Llywodraethol Ffederasiwn strategol yn golygu y gall yr ysgolion weithio'n ffurfiol gyda'i gilydd i wella cyfleoedd i blant. Mae'r heriau'n cynnwys meithrin ymddiriedaeth rhwng llywodraethwyr a chymunedau ysgolion, ymrwymiad gan yr holl ysgolion dan sylw, gan gytuno ar weledigaeth a rennir a'r posibilrwydd o golli llywodraethwyr profiadol.

Esboniwyd cyfansoddiad y corff llywodraethu a bydd o leiaf 15 ac uchafswm o 27 o lywodraethwyr ar gyfer pob ffederasiwn. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am sefyllfa bresennol yr holl 8 corff llywodraethu a bod pob grŵp o ysgolion eisoes wedi bod yn 'gydweithredu' yn anffurfiol ers nifer o flynyddoedd. Nodwyd y broses ffedereiddio ym mharagraff 4.29 o'r adroddiad a cham nesaf y broses yw symud ymlaen at Ymgynghoriad ffurfiol am gyfnod o 20 niwrnod ysgol i dderbyn ymatebion cyrff llywodraethu. Cyfeiriwyd y Cabinet at atodiad 1 sef dogfen enghreifftiol a fydd yn cael ei haddasu ar gyfer pob un o'r ffederasiynau ysgol.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynglŷn â'r swyddogaeth Craffu o ran cyflwyno adroddiadau ar gyfer ysgolion ffederal, a holwyd a fyddai hyn yn cael ei ystyried yn arfer gorau. Eglurwyd y gellid cyflwyno adroddiadau ysgol unigol yn yr un cyfarfod Craffu. Mae ysgolion wedi bod yn cydweithredu 'yn anffurfiol' am nifer o flynyddoedd, gan rannu adnoddau a staff. Mae'r broses hon yn cynnig sefydlogrwydd ar gyfer y dyfodol gan y gall ysgolion, gyda'r trefniadau presennol, dynnu'n ôl os ydynt yn dymuno ar unrhyw adeg heb rybudd, gan nad oes cytundeb ffurfiol ar waith. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion wedi cwrdd â llywodraethwyr ysgol a welodd y 'dwyn ynghyd' fel symudiad positif ymlaen. Mae'r ysgogiad wedi deillio o'r cyrff llywodraethu. Mae Estyn hefyd yn awyddus iawn i gefnogi ffedereiddio er mwyn y manteision addysgol a ddaw a'r rhannu adnoddau sydd eisoes yn gweithio'n dda iawn.

Trafododd y Cabinet y rheoliadau ac yn arbennig ysgolion yn cadw eu Penaethiaid neu un Pennaeth yn rheoli'r ysgolion ffederal. Cadarnhawyd nad oes unrhyw gynigion i newid y strwythur presennol, fodd bynnag, byddai'r sefyllfa yn eithaf gwahanol pe bai uchafswm o chwe ysgol wedi'u cynnwys mewn un ffederasiwn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) (i) cymeradwyo'r cynnig i fynd ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar Ffedereiddio'r grwpiau o ysgolion canlynol:

Ysgol Gynradd y Parc ac Ysgol Gynradd Gilfach Fargod.
Ysgol Gynradd Trelyn ac Ysgol Gynradd Pengam.
Ysgol Iau Bedwas ac Ysgol Gynradd Rhydri.
Ysgol Gynradd Ynys-ddu ac Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach

(ii) yn dilyn yr Ymgynghoriad, dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad terfynol ar y cynnig.

## 6. BAND A O RAGLEN BAND YSGOLION AC ADDYSG YR 21AIN GANRIF - Y DIWEDDARAF A'R DYRANNU ARFAETHEDIG O DANWARIANT

Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar sefyllfa ariannol rhaglen Band A a gofynnodd am gytundeb ar gyfer y tanwariant rhagamcanol i'w ddyrannu i brosiect adnewyddu yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes gan Lywodraeth Cymru (LlC).

Hysbyswyd y Cabinet bod Band A o Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif (2014-2019) wedi cymeradwyo dyraniad o £56.5 miliwn ar gyfer cynlluniau gwella/adeiladu newydd yn yr ysgolion a nodwyd ym mharagraff 4.3. o'r adroddiad. Ar hyn o bryd mae'r tanwariant rhagamcanol presennol ar y rhaglen yn cael ei amcangyfrif yn £940,120. Mae'r cyllid ar sail 50/50 gyda Llywodraeth Cymru ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes wedi neilltuo ei gyfran o'r swm o £56.5 miliwn.

Nododd y Cabinet, er bod y tanwariant rhagamcanol yn amcangyfrif, derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf heddiw a chadarnhawyd bod y broses gaffael wedi'i chwblhau a bod cost gyffredinol y prosiect wedi'i chadarnhau nawr yn £875,000. Roedd yr amcangyfrif o ran adnewyddu Ysgol Gyfun Coed Duon a maes 3G yn £65,000 yn fwy na'r hyn a ragwelwyd. Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru am ddyraniad ychwanegol o'r tanwariant rhagamcanol i gwrdd â'r cynnydd hwn. Daw'r penderfyniad gan Banel Cyfalaf Llywodraeth Cymru a fydd yn trafod y cais yn eu cyfarfod nesaf ddydd Iau, 19eg Gorffennaf 2018. Hysbysir yr Awdurdod Lleol am benderfyniad y panel erbyn 23ain Gorffennaf.

Oherwydd yr amserlenni cyfyngedig, nid oedd hi'n bosib i'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ystyried yr adroddiad. Gan fod y rhaglen bron â chwblhau, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol nodi defnydd amgen o unrhyw danwariant rhagamcanol.

O ran yr ymarfer blynyddol a ymgymerir bob blwyddyn i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi Cyfalaf Ysgolion, daeth yn amlwg bod angen ar Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod fuddsoddiad sylweddol i ddiwallu anghenion newidiol poblogaeth yr Ysgol bresennol ac yn y dyfodol. Ar y cyfan mae hyn wedi codi yn sgîl anghenion cynyddol cymhleth y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r Ysgol. Mae nifer o gyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal yn cynnwys swyddogion ar draws yr Awdurdod a staff yn yr Ysgol sydd wedi nodi meysydd blaenoriaeth i'w gwario yn yr Ysgol i ddechrau. Nodwyd manylion amdanynt ym mharagraff 4.8. yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod yr Awdurdod mewn partneriaeth â'r Ysgol a thrwy Fuddsoddi Cyfalaf, eisoes wedi ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael drwy ddarparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Awdurdod ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion sydd angen darpariaeth addysgol arbenigol. Roedd y Cabinet yn falch o nodi y bydd y gwelliannau i Gae'r Drindod yn cyd-fynd ag ehangu pellach yr Ysgol a gynigiwyd o fewn rhaglen Band B yr 21ain Ganrif a bydd hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdod i fodloni gofynion y Bil Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd Yn ogystal, bydd y gwaith a nodir ym mharagraff 4.8 yn cael ei flaenoriaethu yn ôl fforddiadwyedd. Bydd y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y prosiect yn cael ei gyfyngu i uchafswm y tanwariant a gadarnhawyd ar y rhaglen Band A. Cefnogodd y Cabinet y cynigion ar gyfer y nifer o fanteision y gellir eu cynnig i anghenion cymhleth cynyddol y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r Ysgol. Estynnwyd canmoliaeth i'r Pennaeth yng Nghae'r Drindod am ei waith caled a'i ymrwymiad i'r Ysgol a'r disgyblion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) cymeradwyo bod y tanwariant rhagamcanol ar Fand A o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn £940,120) i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith gwella yn Ysgol a Chanolfan Adnodau Cae'r Drindod;

(ii) bod achos busnes manwl ar gyfer defnyddio'r tanwariant hwn gan gynnwys costiadau llawn, yn cael ei llunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

## 7. MONITRO'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL (Q1 – 2018/19)

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar y Gofrestr Risg Corfforaethol yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor, cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yn nodi'r trefniadau priodol sydd ar waith i brosesau Rheoli Risg y Cyngor gael eu monitro a'u harchwilio'n rheolaidd ac yn gadarn.

Nododd y Cabinet fod gan yr Aelodau rôl tra phwysig i'w chwarae wrth werthuso trefniadau Rheoli Risg y Cyngor ac yn benodol mewn deall sut mae'r cyngor yn nodi, rheoli, a lle mae hynny'n bosibl, lliniaru neu ddileu risg. Mae Rheoli Risg yn hanfodol er mwyn darparu Gwasanaethau'r Cyngor yn effeithiol. Trafodwyd rôl y Cabinet a sut y caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei llunio.

Esbonwyd o dan Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor, bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn monitro Risgiau Corfforaethol y Cyngor a bod gan y Pwyllgor Archwilio rôl adolygu a herio'r Gofrestr Risgiau a, lle bo hynny'n berthnasol, cynlluniau gweithredu canlyniadol, ar gyfer Risgiau strategol a Chorfforaethol allweddol y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn 'ddogfen fyw' a gall newid pan gaiff ei hadolygu a'i hasesu bob hyn a hyn. Cyflwynwyd risgiau newydd, caewyd y risgiau presennol, newidwyd lefelau risg (CAG) (coch/ambr/gwyrdd), diweddarwyd

camau lliniaru a sylwadau cynnydd.  Wrth symud ymlaen, bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau cynnydd bob chwe mis am y Gofrestr Risg Gorfforaethol.  Darparwyd crynodeb o'r prif newidiadau a chadarnhawyd nad oedd unrhyw risgiau newydd wedi'u nodi ers y cyfarfod diwethaf o'r Cabinet a gynhaliwyd ar 14eg Chwefror 2018.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â CMT42 - Ymadael â'r UE (tynnwyd y risg). Eglurwyd bod elfennau o arian yr UE wedi'u symud i'r gyllideb sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig oherwydd ansicrwydd cyllid yr UE yn y dyfodol.  Mynegwyd pryderon mewn perthynas â CMT39 - Eiddilwch y Farchnad Gofal Cymdeithasol, gan fod yr Adroddiad Fframwaith Gofal Cartref wedi ei ohirio o'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 19eg Mehefin 2018.  Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, nid oedd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ynghylch pryd fydd yr adroddiad yn cael ei ystyried unwaith eto gan y Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog i gymeradwyo'r Gofrestr Risg Corfforaethol cyn gyflwyno'r diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.35pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar y 25ain Gorffennaf 2018.

______________________

CADEIRYDD